Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau

2024 Adroddiad Blynyddol

## Datganiad yr Harbwrfeistr, Mike Ryan

Fe wnaeth lefelau morgludiant amrywio yn 2024. Roedd canol y flwyddyn yn dawel ond roedd cyfnod y gaeaf yn brysur. Yn ôl yr arfer, roedd marchnadoedd nwy rhyngwladol yn gyfrifol am lawer o'r gweithgarwch yn ymwneud â nwy naturiol hylifol (LNG), ac roedd cyfnod o gau Valero i wneud gwaith cynnal a chadw wedi effeithio ar nifer y llongau hefyd.

Roedd y metrig a ddefnyddir i gyfrifo taliadau ein porthladd, tunelledd gros, wedi gostwng o 58.7m tunnell yn 2023 i 47.9m tunnell yn 2024, gostyngiad o 18.4%. Cafwyd gostyngiad bach mewn symudiadau morgludiant o 1,909 i 1,893. Cyfanswm pwysau'r cargo a symudwyd oedd 32.8m tunnell, gostyngiad o 34.7m tunnell yn 2023.

Roedd yn dda gennyf weld ein hadran forol yn parhau i ddangos pa mor ymatebol ydym ni i anghenion cwsmeriaid ein terfynell. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn y rhan hanfodol hon o'n gweithrediadau er mwyn sicrhau bod modd i ni ddarparu'r hyn sydd ei angen ar ein cwsmeriaid bob amser. Croesawyd aelodau newydd o'n timau ar y dŵr ac yn VTS. Dechreuodd y gwaith o osod cilbren ein cwch ar gyfer ein cwch peilota newydd, yn barod ar gyfer dyfodiad cwch a fydd yn gwella ein galluoedd yn sylweddol. Hefyd, fe wnaethom uwchraddio seilwaith ac offer allweddol.

Rydym yn cael tywydd gwael yn amlach erbyn hyn, ac o ganlyniad mae angen cyfuniad o weithdrefnau wedi'u cynllunio'n dda ynghyd ag ymateb cyflym, proffesiynol i amgylchiadau sy'n newid. Roedd y stormydd ar ddiwedd y flwyddyn wedi profi ein galluoedd yn y cyswllt hwn. Fe wnaethant ein hatgoffa o bwysigrwydd gwaith tîm hefyd.

Fe wnaethom ddwyn cwsmeriaid a phartneriaid allweddol eraill ynghyd sy'n sicrhau bod y Porthladd yn gweithredu'n ddidrafferth ac yn ddiogel, er mwyn trafod sut y gallwn ni i gyd weithio'n agosach gyda'n gilydd i rannu baich materion heriol fel tywydd gwael.

Hefyd, roedd yn dda gennyf weld diweddglo llwyddiannus i'n penderfyniad i erlyn defnyddiwr jet-sgi am dorri tair is-ddeddf a pheryglu bywydau ei deithiwr a phobl eraill yr haf diwethaf. Mae gennym ddyletswydd i sicrhau diogelwch pawb ar y Ddyfrffordd, ond roedd yr erlyniad hwn yn atgoffa pob defnyddiwr bod y cyfrifoldeb hwn yn cael ei rannu gan bawb. Os ydych chi'n defnyddio'r Ddyfrffordd, naill ai'n fasnachol neu ar gyfer hamdden, rhaid i chi ymddwyn yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ystyried pobl eraill.